nus charity
national union of students

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research



# Pecyn cymorth ar gyfer ymdopi ag argyfwng

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth hwn?

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i ddatblygu gan Elusen UCM, gyda chymorth ariannol gan Medr, i gefnogi undebau myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru. Fe'i bwriedir ar gyfer swyddogion etholedig, staff ac ymddiriedolwyr a allai fod angen ymateb i sefyllfaoedd heriol, gan ddarparu canllawiau ymarferol i helpu undebau myfyrwyr i lywio argyfyngau yn hyderus, amddiffyn buddiannau myfyrwyr, a chyflawni eu cyfrifoldebau o ran llywodraethiant.

## Croeso

Mae undebau myfyrwyr yn bodoli i gynrychioli, cefnogi a chyfoethogi bywydau myfyrwyr. A'r rhan fwyaf o'r amser, mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo heb unrhyw ddigwyddiadau dadleuol na tharfu sylweddol. Fodd bynnag, bydd pob undeb myfyrwyr yn y pen draw yn wynebu sefyllfaoedd a fydd yn profi eu harweinyddiaeth, eu doethineb a'u cyfathrebu.

- Pryder ynghylch diogelu.
- Siaradwr dadleuol.
- Myfyrwyr yn meddiannu adeilad.
- Cyhoeddiad pwysig gan y brifysgol.
- Storm yn y cyfryngau cymdeithasol.
- Digwyddiad difrifol yn ymwneud â myfyrwyr.

Pan fydd y sefyllfaoedd hyn yn codi, gall ansawdd ymateb yr undeb gael effaith sylweddol ar fyfyrwyr, staff, ymddiriedolwyr a rhanddeiliaid ehangach.

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i ddatblygu i helpu undebau myfyrwyr i lywio sefyllfaoedd anodd yn hyderus.

Nid yw wedi'i fwriadu i droi swyddogion, staff nac ymddiriedolwyr yn arbenigwyr cyfathrebu. Yn hytrach, ei nod yw darparu cyngor ymarferol, offer ac enghreifftiau a all helpu undebau myfyrwyr i ymateb yn effeithiol pan fydd pethau'n mynd yn anodd.

## Pam darllen hwn?

Ychydig iawn o undebau myfyrwyr sydd ag arbenigedd cyfathrebu ar gyfer achosion o argyfwng. Mae llawer o swyddogion yn ymgymryd â'u rôl arweinyddiaeth gyntaf. Ac efallai nad oes gan staff ac ymddiriedolwyr lawer o brofiad yn y maes hwn.

Pan fydd argyfwng yn digwydd, anaml y bydd amser i ddechrau dysgu o'r cychwyn.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i helpu undebau myfyrwyr â'r canlynol:

- Cydnabod pryd y gallai problem ddod yn argyfwng.
- Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.
- Cyfathrebu'n hyderus yn ystod cyfnod o ansicrwydd.
- Deall rôl ymddiriedolwyr a llywodraethiant.
- Cefnogi myfyrwyr yn ystod sefyllfaoedd anodd.
- Dysgu o brofiad a chryfhau parodrwydd ar gyfer y dyfodol.

Nid oes angen i chi ddod yn arbenigwr mewn cyfathrebu yn ystod argyfwng.

## Nodyn cyn i ni ddechrau

Mae llawer o bobl yn tybio bod cyfathrebu yn ystod argyfwng yn ymwneud â bod â'r holl atebion yn eich meddiant, gwneud penderfyniadau perffaith, neu ddod o hyd i'r union eiriau cywir.

Nid felly mohoni.

Yn ystod argyfwng, anaml y bydd pobl yn disgwyl i chi fod â'r holl atebion ar unwaith. Maen nhw'n disgwyl i chi gymryd y mater o ddifrif, cyfathrebu'n onest, a dangos bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Nid perffeithrwydd yw'r nod. Y nod yw ymateb mewn ffordd sy'n amddiffyn ymddiriedaeth, yn cefnogi myfyrwyr, ac yn osgoi gwaethygu sefyllfa anodd.

## Beth yw argyfwng?

Defnyddir y gair "argyfwng" yn aml i ddisgrifio unrhyw sefyllfa anodd. Yn ymarferol, nid yw pob problem yn argyfwng. Mae undebau myfyrwyr yn delio â heriau bob dydd.

- Cwynion
- Anghydfod
- Materion gweithredol
- Adborth negyddol

Gellir ymdrin â'r mwyafrif helaeth o'r sefyllfaoedd hyn trwy brosesau a threfniadau arferol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae argyfwng yn wahanol.

Mae argyfwng yn sefyllfa sy'n peri bygythiad sylweddol i bobl, enw da, gweithrediadau, cyllid neu allu sefydliad i gyflawni ei bwrpas.

Gallant gynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- Risg i enw da'r sefydliad
- Lefelau uchel o bryder gan randdeiliaid
- Niwed neu aflonyddwch posibl
- Sylw sylweddol yn y cyfryngau
- Pwysau i weithredu'n gyflym

Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Pryderon difrifol am ddiogelu
- Sylw sylweddol yn y cyfryngau
- Gollwng data
- Honiadau'n ymwneud â swyddogion, staff neu ymddiriedolwyr
- Helynt difrifol mewn digwyddiadau
- Cyhoeddiadau arwyddocaol gan y brifysgol

Mae rhai yn datblygu'n gyflym. Mae eraill yn dod i'r amlwg yn raddol dros ddyddiau, wythnosau neu hyd yn oed fisoedd.

Y peth pwysig yw cydnabod pryd mae mater yn symud y tu hwnt i fusnes arferol ac yn gofyn am ymateb mwy cydlynol.

Gall argyfwng effeithio ar lawer mwy nag enw da sefydliad. Yn dibynnu ar natur yr hyn sydd wedi digwydd, gall effeithio’n sylweddol ar fyfyrwyr, staff, ymddiriedolwyr a'r sefydliad ei hun.

Mae effeithiau posibl yn cynnwys:

- Myfyrwyr, staff, partneriaid a rhanddeiliaid yn colli hyder am ymddiriedaeth
- Niwed i berthnasoedd â'r brifysgol
- Mwy o graffu gan reoleiddwyr, cyllidwyr neu gyrff allanol
- Colli dylanwad a hygrededd
- Anhawster wrth geisio sicrhau cyllid, nawdd neu incwm masnachol yn y dyfodol
- Pwysau ar gyllid neu ffrydiau refeniw sy’n bodoli eisoes
- Llai o ymgysylltiad â gwasanaethau, gweithgareddau neu ymgyrchoedd
- Effaith negyddol ar ysbryd a llesiant staff
- Cynnydd mewn trosiant staff neu lai o ymgysylltiad gan wirfoddolwyr
- Cryn lawer o amser rheolwyr wedi'i ddargyfeirio i ffwrdd o flaenoriaethau craidd
- Deilliannau cyfreithiol, ariannol neu reoleiddiol
- Niwed i enw da a all barhau ymhell ar ôl i'r broblem wreiddiol gael ei datrys

Mewn amgylchiadau eithafol, gall argyfwng sydd wedi'i reoli'n wael fygwth cynaladwyedd hirdymor sefydliad neu ei allu i gyflawni ei bwrpas.

I undebau myfyrwyr, gall fod canlyniadau ychwanegol. Gall myfyrwyr golli hyder bod yr undeb yn dal i allu eu cynrychioli’n effeithiol. Efallai y bydd prifysgolion yn dod yn fwy gofalus yn eu hymwneud â'r undeb. Mae’n bosib y bydd angen i ymddiriedolwyr gymryd rhan fwy uniongyrchol mewn goruchwylio a llywodraethiant. Gall perthnasoedd sydd wedi cymryd blynyddoedd i'w sefydlu gael eu niweidio'n hynod o gyflym.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r canlyniadau hyn yn anochel. Mae llawer o sefydliadau'n profi argyfyngau ac yn adfer yn llwyddiannus. Mewn gwirionedd, mae rhai yn dod allan o’r sefyllfaoedd hyn yn gryfach, ar ôl dangos tryloywder, atebolrwydd ac arweinyddiaeth effeithiol o dan bwysau.

Nid pwrpas rheoli argyfwng yw osgoi pob anhawster. Y nod yw lleihau niwed, amddiffyn ymddiriedaeth, a sicrhau nad yw sefyllfa anodd yn gwaethygu'n sylweddol oherwydd methiant wrth wneud penderfyniadau neu gyfathrebu gwael.

## Nid oes rhaid i’r bai fod arnoch chi i chi orfod ymdopi â’r argyfwng

Un o'r gwersi pwysicaf mewn cyfathrebu yn ystod argyfwng yw hon: Nid oes rhaid i’r bai fod arnoch chi i chi orfod ymdopi â’r argyfwng

Yn aml, mae'n ofynnol i undebau myfyrwyr ymateb i sefyllfaoedd nad ydyn nhw wedi'u creu ac na allant eu rheoli'n uniongyrchol. Gallai hyn fod o ganlyniad i benderfyniad y mae'r brifysgol wedi'i wneud, gwleidyddiaeth fyd-eang ehangach, neu gymdeithas myfyrwyr yn gweithredu'n unochrog.

Waeth beth neu bwy sydd ar fai, mae'n bosib iawn y bydd myfyrwyr, staff, y gymuned leol, y wasg genedlaethol a rhanddeiliaid yn troi atoch chi am ymateb, camau gweithredu, neu esboniad.

## Sut y gallai argyfwng ddod i'r amlwg

Nid yw'r rhan fwyaf o argyfyngau'n dechrau gyda phennawd ar y dudalen flaen. Maen nhw'n aml yn dechrau gyda rhywbeth sy'n ymddangos yn eithaf cyffredin.

- E-bost.
- Cwyn.
- Postiad ar gyfryngau cymdeithasol.
- Sgwrs.
- Newyddiadurwr yn gofyn cwestiwn.
- Pryder ynghylch diogelu.

## Sut y gallai argyfwng ddod i'r amlwg

Nid yw'r rhan fwyaf o argyfyngau'n dechrau gyda phennawd ar y dudalen flaen. Maen nhw'n aml yn dechrau gyda rhywbeth sy'n ymddangos yn eithaf cyffredin.

- E-bost.
- Cwyn.
- Postiad ar gyfryngau cymdeithasol.
- Sgwrs.
- Newyddiadurwr yn gofyn cwestiwn.
- Pryder ynghylch diogelu.

Gall adnabod yr arwyddion cynnar hyn helpu undebau myfyrwyr i ymateb yn fwy effeithiol.

Un o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin y mae sefydliadau'n eu gwneud yw tybio y bydd argyfwng yn cyhoeddi ei hun yn glir. Mewn gwirionedd, dim ond wrth edrych yn ôl y mae llawer o argyfyngau yn amlwg.

## Materion mewnol

Mae rhai argyfyngau'n tarddu o'r sefydliad ei hun. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Honiadau'n ymwneud â swyddogion neu staff
- Pryderon ynghylch llywodraethiant
- Anghysondebau ariannol
- Materion diogelu
- Gollwng data
- Methiannau gweithredol sylweddol

Ni fydd pob anhawster yn y meysydd hyn yn dod yn argyfwng. Fodd bynnag, mae gan bob un y potensial i ddatblygu i fod yn un os na chânt eu cydnabod a'u trin yn briodol.

## Materion dan arweiniad myfyrwyr

Mae undebau myfyrwyr yn bodoli i gefnogi gweithgareddau myfyrwyr. Weithiau, gall materion sy'n ymwneud â chymdeithasau, clybiau chwaraeon, gwirfoddolwyr neu gynrychiolwyr myfyrwyr ddenu sylw ehangach. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Ymddygiad mewn digwyddiad
- Cwynion ynghylch camwahaniaethu
- Anghydfod ynghylch rhyddid i lefaru
- Materion ymddygiad sy'n cynnwys aelodau'r gymdeithas
- Gweithgaredd ar gyfryngau cymdeithasol
- Ymgyrchoedd a gwrthdystiadau myfyrwyr

Mae llawer o'r sefyllfaoedd hyn yn dechrau fel materion lleol, ond gallant ddenu sylw ehangach yn gyflym.

## Pwysau sefydliadol

Mae gan undebau myfyrwyr gysylltiadau agos â'u prifysgolion. O ganlyniad, gall penderfyniadau a wneir gan y sefydliad ddod yn broblemau i undeb y myfyrwyr yn gyflym. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Cau cyrsiau
- Ailstrwythuro adrannau
- Gweithredu diwydiannol
- Cau campws
- Anawsterau ariannol y brifysgol
- Newidiadau sylweddol i wasanaethau neu ddarpariaeth

Yn aml, bydd myfyrwyr yn troi at eu hundeb myfyrwyr am wybodaeth, cynrychiolaeth a sicrwydd, waeth pwy oedd yn gyfrifol am y penderfyniad gwreiddiol.

## Digwyddiadau allanol

Mae rhai argyfyngau'n tarddu o du allan i’r sefydliad ei hun. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Newidiadau mewn polisi cenedlaethol
- Digwyddiadau rhyngwladol
- Digwyddiadau iechyd cyhoeddus
- Tywydd eithafol
- Digwyddiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar y gymuned leol
- Anawsterau sy'n effeithio ar y sector addysg uwch ehangach

## Pysgota am argyfwng

Weithiau mae argyfwng yn dechrau oherwydd bod rhywun yn chwilio'n weithredol am stori. Er enghraifft:

- Newyddiadurwr lleol ar ddiwrnod lle nad oes yna lawer o newyddion
- Papur newydd cenedlaethol yn ceisio sylwadau ar fater cenedlaethol
- Grŵp ymgyrchu yn tynnu sylw at fater sydd o bwys iddyn nhw
- Sefydliad gwleidyddol yn ceisio cyhoeddusrwydd
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ymhelaethu ar sefyllfa leol

Dylai undebau myfyrwyr fod yn ymwybodol bod gan rai sefydliadau a sylwebyddion safbwyntiau cryf am brifysgolion, undebau myfyrwyr, rhyddid barn, materion cydraddoldeb ac ymgyrchoedd myfyrwyr.

Nid yw hyn yn golygu osgoi penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, mae'n golygu cydnabod y gall rhai materion ddenu sylw ymhell y tu hwnt i gymuned y campws, a gallant gael eu dehongli'n wahanol iawn gan gynulleidfaoedd allanol.

## Enghreifftiau o sefyllfaoedd o argyfwng sy'n cael eu rheoli'n wael

Yn aml, nid y broblem wreiddiol sy'n achosi'r difrod mwyaf. Mewn rhai achosion, yr ymateb sy'n troi problem ddifrifol yn argyfwng sylweddol.

Yn aml, nid y broblem wreiddiol sy'n achosi'r difrod mwyaf. Mewn rhai achosion, yr ymateb yw'r hyn sy'n troi problem ddifrifol yn argyfwng sylweddol.

- Er enghraifft, gwaethygwyd methiannau diogelu Oxfam yn Haiti pan awgrymodd y Prif Weithredwr Mark Goldring fod beirniadaeth yn anghymesur oherwydd nad oedd yr elusen wedi "llofruddio babanod yn eu gwelyau". Denodd y sylwadau feirniadaeth eang a daethant yn rhan o'r stori. O ganlyniad i hyn, collodd Oxfam gyllid sylweddol, a chyhoeddodd Goldring yn ddiweddarach y byddai'n ymddiswyddo. Holodd Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol Tŷ'r Cyffredin Goldring am y sylwadau fel rhan o'u hymchwiliad i gamfanteisio a cham-drin rhywiol yn y sector cymorth.
- Yn yr un modd, gwaethygodd sgandal allyriadau Volkswagen ar ôl iddi ddod i'r amlwg bod y cwmni wedi defnyddio meddalwedd yn fwriadol i ystumio profion allyriadau. Wynebodd VW biliynau mewn dirwyon ac iawndal, ac ymddiswyddodd uwch arweinwyr y cwmni. Yn ôl cofnodion Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau, plediodd Volkswagen yn euog a chytuno i dalu $4.3 biliwn mewn cosbau troseddol a sifil mewn cysylltiad â'r cynllun.
- Daeth sgandal Horizon y Swyddfa Bost hyd yn oed yn fwy difrifol oherwydd bod pryderon ynghylch dibynadwyedd y system wedi cael eu diystyru dro ar ôl tro, tra bod y postfeistri yr effeithiwyd arnynt yn cael eu beio, eu herlyn am ddiffygion honedig ac, mewn llawer o achosion, eu herlyn. Mae'r sefydliad yn parhau i wynebu craffu cyhoeddus, costau iawndal sylweddol a cholli ymddiriedaeth ymysg y cyhoedd. Mae Cyfrol 1 o adroddiad terfynol Ymchwiliad TG Horizon Swyddfa'r Post yn archwilio effaith ddynol y sgandal a'r angen parhaus am iawndal llawn a theg.

Ni all ymateb effeithiol atal argyfwng bob amser. Fodd bynnag, gall leihau niwed, cynnal ymddiriedaeth ac atal sefyllfa anodd rhag gwaethygu'n sylweddol. Mae llawer o sefydliadau'n llwyddo i adfer yn llwyddiannus ar ôl argyfwng. Yn aml, nid yw'r gwahaniaeth yn ymwneud â’r cwestiwn a ddigwyddodd problem neu beidio, ond yn hytrach yn y ffordd y gwnaeth arweinwyr ymateb pan ddigwyddodd.

Ni all ymateb effeithiol atal argyfwng bob amser. Fodd bynnag, gall leihau niwed, cynnal ymddiriedaeth ac atal sefyllfa anodd rhag gwaethygu'n sylweddol.

Mae llawer o sefydliadau'n llwyddo i adfer yn llwyddiannus ar ôl argyfwng. Yn aml, nid yw'r gwahaniaeth yn ymwneud â’r cwestiwn a ddigwyddodd problem neu beidio, ond yn hytrach yn y ffordd y gwnaeth arweinwyr ymateb pan ddigwyddodd.

## Baneri coch: pryd i symud i ddull argyfwng

Mae'r rhan fwyaf o undebau myfyrwyr yn treulio eu hamser yn gweithredu yn y modd busnes arferol. Gwneir penderfyniadau trwy brosesau sefydledig. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu dros amser. Mae gan bobl le i fyfyrio, ymgynghori a chynllunio.

Mae argyfwng yn wahanol. Dyna pryd mae angen i chi symud i fyny gêr a newid i ddull argyfwng.

Pan fydd sefydliad yn mynd i mewn i ddull argyfwng, mae cyflymder y broses o wneud penderfyniadau yn newid.

Nid yw argyfwng yn golygu panig. Nid yw'n golygu gollwng popeth a thybio'r gwaethaf. Yn hytrach, mae'n golygu cydnabod y gallai'r sefyllfa olygu bod angen ymagwedd wahanol.

Pan fyddwch yn gweithredu yn y dull argyfwng:

- Rydych chi'n casglu gwybodaeth yn weithredol yn hytrach nag aros iddi gyrraedd

- Rydych chi'n cynnwys y bobl gywir yn gynharach
- Rydych chi'n cynyddu cyfathrebu a chydlynu
- Rydych chi'n cadw cofnodion gwell o benderfyniadau a gweithredoedd
- Rydych chi'n adolygu risgiau posibl yn amlach
- Rydych chi'n meddwl yn ofalus am yr hyn a allai ddigwydd nesaf, nid dim ond yr hyn sy'n digwydd nawr

Mae llawer o sefyllfaoedd sy'n troi argyfwng yn profi'n hylaw yn y pen draw ac yn cael eu datrys yn gyflym. Mae hynny'n gwbl normal.

Nid pwrpas hyn yw datgan bod argyfwng. Y nod yw sicrhau bod sefyllfa a allai fod yn ddifrifol yn cael y sylw, y cydlyniad a'r oruchwyliaeth y gallai fod eu hangen.

## Baneri coch

Nid yw'r baneri coch canlynol yn golygu'n awtomatig bod gennych chi argyfwng ar eich dwylo. Fodd bynnag, dylent annog ystyriaeth ynghylch a yw hi'n bryd symud i'r dull argyfwng.

Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Mae newyddiadurwr yn cysylltu â'r undeb, swyddog, ymddiriedolwr neu gymdeithas.
- Mae yna bryder ynghylch diogelu
- Daeth llythyr cyfreithiol i law
- Mae gwleidydd neu sefydliad gwleidyddol yn ymwneud â'r mater.
- Mae grŵp ymgyrchu cenedlaethol yn ymwneud â'r mater.
- Mae stori'n dechrau mynnu sylw sylweddol ar-lein.
- Mae myfyrwyr yn mynegi pryderon ynghylch diogelwch.
- Mae gollyngiad data sylweddol yn digwydd.
- Mae'r cyfryngau cenedlaethol yn dechrau dangos diddordeb.
- Mae ymddiriedolwyr yn dechrau clywed am broblem o ffynonellau allanol.

Mae llawer o sefyllfaoedd sy'n dod yn argyfwng yn dechrau ag un o'r arwyddion rhybudd hyn.

Egwyddor syml
Os yw’r sefyllfa’n denu:

- Sylw sylweddol yn y cyfryngau
- Pryderon cyfreithiol
- Pryderon o ran diogelu
- Sylw cenedlaethol
- Sylw gwleidyddol
- Risg sylweddol i enw da

...ystyriwch symud i’r dull argyfwng.

Un o'r sgiliau pwysicaf wrth fynd ati i reoli argyfwng yw cydnabod pryd mae problem wedi dod yn fwy na'r person a'i hwynebodd gyntaf.

Pan fyddwch mewn amheuaeth, fel arfer mae'n well symud i’r dull argyfwng a chamu’n ôl yn ddiweddarach na darganfod yn rhy hwyr y bu angen ymateb mwy cydlynol.

## Ymateb i argyfwng

Unwaith y bydd problem wedi'i nodi a'ch bod wedi symud i’r dull argyfwng, mae'r ffocws yn symud i ymateb.

Cyfnodau cynnar argyfwng yw'r rhai mwyaf heriol yn aml.

- Gall y wybodaeth fod yn anghyflawn
- Gall fod gan wahanol bobl fersiynau gwahanol o’r hyn sydd wedi digwydd
- Efallai y bydd myfyrwyr yn gofyn cwestiynau
- Efallai y bydd newyddiadurwyr yn ceisio sylwadau
- Mae’n bosib y bydd cyfryngau cymdeithasol yn symud yn gyflymach na'r ffeithiau

Y demtasiwn yn aml yw gweithredu ar unwaith. Y dull gorau fel arfer yw cael trefn ar bethau, sefydlu'r ffeithiau a chanolbwyntio ar y pethau sylfaenol.

## Y 60 munud cyntaf

Nid yw'r rhan fwyaf o argyfyngau'n cyrraedd gyda label rhybudd ynghlwm iddynt. Maen nhw'n aml yn dechrau â rhywbeth sy'n ymddangos yn ddigon cyffredin:

- E-bost gan newyddiadurwr yn gofyn am sylw
- Postiad ar gyfryngau cymdeithasol yn dechrau denu sylw
- Myfyriwr yn codi pryder difrifol
- Ymddiriedolwr yn derbyn gwybodaeth sy'n peri pryder
- Cydweithiwr o'r brifysgol yn ffonio'n annisgwyl
- Problem ddiogelu'n dod i'ch sylw

Yn yr eiliadau cyntaf hynny, gall fod yn demtasiwn i ddechrau ymateb ar unwaith, postio ar-lein neu geisio datrys y broblem. Mae'n bwysig gwrthsefyll y demtasiwn honno.

Dylech dreulio'r 60 munud cyntaf yn canolbwyntio ar ddeall y sefyllfa a threfnu ymateb effeithiol.

## Cam 1: penderfynu a yw hwn yn argyfwng

Nid yw pob sefyllfa anodd yn argyfwng.

Gofynnwch i chi'ch hun: ydych chi wir mewn argyfwng? Mae'n safon uchel:

- A allai rhywun gael ei niweidio neu ei effeithio'n sylweddol?
- A yw'r cyfryngau'n debygol o roi sylw i'r mater?
- A allai hyn niweidio ymddiriedaeth yn yr undeb?
- A allai hyn effeithio ar allu'r undeb i weithredu?
- A allai fod yna risg sylweddol i enw da'r sefydliad, risg gyfreithiol neu o ran diogelu?

Os mai'r ateb i sawl un o'r cwestiynau hyn yw 'gallai', dechreuwch baratoi ymateb i argyfwng. Fel arfer mae'n well camu'n ôl o ymateb i argyfwng yn ddiweddarach nag ymateb yn rhy araf.

## Cam 2: rhoi’r gorau i weithredu arferol

Un o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin y mae sefydliadau'n ei wneud yw ceisio rheoli argyfwng ochr-yn-ochr â phopeth arall.

Daw argyfwng sylweddol yn flaenoriaeth yn gyflym. Nid yw hyn yn golygu bod pob aelod o staff yn rhoi'r gorau i'r hyn maen nhw'n ei wneud.

Mae'n golygu bod angen yr amser a'r lle ar y rhai sy'n gyfrifol am arwain yr ymateb i ganolbwyntio.
•Mae’n bosib y bydd angen gohirio cyfarfodydd
•Efallai y bydd angen oedi cyfathrebiadau arferol
•Efallai y bydd angen aros am gyhoeddiadau wedi'u cynllunio

Mae angen i bobl allu deall beth sy'n digwydd a gwneud penderfyniadau da.

## Cam 3: sicrhau bod y bobl iawn ar gael

Nid oes angen pawb arnoch chi. Mae angen y bobl iawn arnoch chi.

Yn dibynnu ar y sefyllfa, gall hyn gynnwys:

- Y Prif Weithredwr neu'r uwch aelod staff
- Swyddogion etholedig perthnasol
- Bwrdd yr ymddiriedolwyr
- Staff cyfathrebu
- Staff adnoddau dynol
- Arweinwyr diogelu
- Cysylltiadau perthnasol yn y brifysgol

Peidiwch â chymryd yn ganiatáol y bydd pobl yn clywed am y mater trwy sianeli arferol. Cysylltwch yn uniongyrchol.

## Cam 4: sefydlu'r ffeithiau

Yn ystod cyfnodau cynnar argyfwng, mae gwybodaeth yn aml yn anghyflawn. Gall fod gan wahanol bobl fersiynau gwahanol o’r hyn sydd wedi digwydd Gall sibrydion ledaenu'n gyflym.

Cyn penderfynu beth i'w ddweud yn gyhoeddus, sefydlwch:
•Beth ydyn ni’n ei wybod?
•Beth ydyn ni'n meddwl ein bod ni'n ei wybod?
•Beth nad ydym yn ei wybod?
•Pwy sy'n casglu gwybodaeth?
•Pryd fyddwn ni'n gwybod mwy?

Mae'n berffaith dderbyniol dweud: Rydym yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn casglu rhagor o wybodaeth.

Nid yw'n dderbyniol dyfalu. Mae dyfalu yn creu problemau sy'n aml yn llawer anoddach eu datrys yn ddiweddarach.

## Enghraifft

Am 9am, mae postiad ar Instagram yn dechrau cylchredeg yn honni ymddygiad camwahaniaethol gan gymdeithas myfyrwyr. Mae'r postiad yn cael ei rannu'n eang ac mae sawl sylw yn tagio undeb y myfyrwyr.

Ar y cam hwn, mae’n bwysig:
✓ Rhybuddio swyddogion, staff ac ymddiriedolwyr perthnasol
✓ Sefydlu'r hyn sy'n hysbys
✓ Nodi pwy sy'n arwain yr ymateb
✓ Dechrau casglu gwybodaeth
✓ Ystyried a allai fod angen datganiad dros-dro
✗ Peidiwch â dadlau ar-lein
✗ Peidiwch â thybio bod yr honiadau'n wir
✗ Peidiwch â thybio bod yr honiadau'n ffug
✗ Peidiwch â chyhoeddi datganiadau hir yn seiliedig ar wybodaeth anghyflawn

Nid datrys yr argyfwng yw'r nod yn y 60 munud cyntaf. Y nod yw gosod yr undeb yn y sefyllfa gryfaf bosibl i ymateb yn effeithiol.

## Yr ychydig oriau cyntaf

Unwaith y bydd y sefyllfa wedi'i sefydlogi, mae'r ffocws yn symud o ddeall y broblem i'w rheoli.

Dyma’r pryd yn aml ble mae myfyrwyr, staff, ymddiriedolwyr, newyddiadurwyr a rhanddeiliaid eraill yn dechrau chwilio am wybodaeth.

Mae’n bosib y bydd ganddyn nhw gwestiynau na ellir eu hateb yn llawn eto. Gall hyn deimlo'n anesmwyth. Fodd bynnag, nid yw ymateb yn dda yn golygu bod yn rhaid i chi fod â’r holl atebion yn eich meddiant. Mae gofyn i chi gyfathrebu'n glir, yn onest ac yn gyson.

### Ymgynnull y tîm

Ni ddylai unrhyw berson reoli argyfwng sylweddol ar ei ben ei hun. Mae ymatebion effeithiol yn dibynnu ar ddod â'r bobl gywir ynghyd, gyda chyfrifoldebau clir a threfniadau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Bydd pwy yn union sy'n rhan o'r broses yn dibynnu ar y sefyllfa, ond mae yna rai rolau cyffredin y dylai undebau myfyrwyr eu hystyried.

### Y Prif Weithredwr neu'r uwch aelod staff

Mewn llawer o sefyllfaoedd, bydd y Prif Weithredwr yn cydlynu ymateb y sefydliad gyda chefnogaeth bwrdd yr ymddiriedolwyr. Mae’n bosib y byddant yn:

- Goruchwylio gwneud penderfyniadau.
- Cydlynu gweithgaredd staff.
- Cysylltu â'r ymddiriedolwyr.
- Cysylltu â'r brifysgol.
- Sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu dilyn.

Os nad yw'r Prif Weithredwr ar gael, dylai fod yn glir pwy fydd yn camu i'r rôl hon.

## Swyddogion etholedig

Mae swyddogion yn aml yn weladwy iawn yn ystod argyfwng. Mae'n bosib y bydd myfyrwyr yn disgwyl iddyn nhw:

- Esbonio beth sy'n digwydd.
- Cynrychioli pryderon myfyrwyr.
- Bod yn eiriol ar ran myfyrwyr.
- Darparu sicrwydd.

Dylid cynnwys swyddogion yn briodol, ond ni ddylid disgwyl iddynt drefnu'r ymateb ar eu pennau eu hunain. Mae cefnogaeth staff yn hanfodol.

## Cymorth cyfathrebu

Dylai rhywun fod yn gyfrifol am gydlynu gweithgaredd cyfathrebu. Gall hyn gynnwys:

- Drafftio datganiadau.
- Monitro sylw yn y cyfryngau.
- Monitro cyfryngau cymdeithasol.
- Cydlynu negeseuon.
- Cynnal cofnodion o gyfathrebiadau.

Dim ond un rhan o'r ymateb yw cyfathrebu, ond mae'n un bwysig.

## Cyngor arbenigol

Mae rhai sefyllfaoedd yn gofyn am arbenigedd. Er enghraifft:

- Efallai y bydd angen cyngor cyflogaeth ar faterion AD
- Gall pryderon diogelu olygu bod angen arbenigedd diogelu
- Efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol ar gyfer ddigwyddiadau difrifol
- Efallai bydd angen cymorth technegol ar gyfer gollyngiadau data

Mae'n bwysig gwybod ymlaen llaw pwy all ddarparu'r gefnogaeth hon a manteisio ar arbenigedd eich ymddiriedolwyr allanol/lleyg hefyd.

## Cysylltiadau o fewn y brifysgol

Bydd llawer o argyfyngau yn gofyn am gydweithio agos â'r brifysgol. Mae hyn yn arbennig o wir ble:

- Mae myfyrwyr yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol
- Mae sylw yn y cyfryngau
- Mae'r mater yn ymwneud â'r naill sefydliad a’r llall
- Mae aflonyddwch sylweddol yn digwydd

Mae perthnasoedd da a adeiladwyd cyn yr argyfwng yn aml yn amhrisiadwy yn ystod un.

## Y Model PGS

Fframwaith syml ar gyfer cyfathrebu cynnar yw PGS.

- Pryder - Cydnabod difrifoldeb y sefyllfa a'r effaith ar unigolion. Er enghraifft: Rydym yn cydnabod y bydd myfyrwyr yn bryderus ynghylch yr adroddiadau hyn.

- Gweithredu - Esbonio beth sy'n digwydd. Er enghraifft: Rydym wrthi’n canfod y ffeithiau ac yn casglu gwybodaeth ar hyn o bryd

- Sicrwydd - Egluro pam y dylai pobl fod â hyder yn eich ymateb. Er enghraifft: Rydym yn trin y mater hwn o ddifrif a byddwn yn parhau i’ch darparu â’r wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

## Dynodi rhanddeiliaid allweddol

Nid oes angen yr un wybodaeth ar bawb ar yr un pryd. Meddyliwch yn ofalus am bwy allai gael eu heffeithio. Gall hyn gynnwys:

- Myfyrwyr
- Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Staff
- Ymddiriedolwyr
- Cydweithwyr yn y brifysgol
- Newyddiadurwyr
- Rheoleiddwyr

Mewn rhai sefyllfaoedd, myfyrwyr fydd y flaenoriaeth. Mewn eraill, efallai y bydd angen hysbysu partneriaid diogelu, ymddiriedolwyr neu gydweithwyr yn y brifysgol yn gyntaf.

## Adolygu cyfathrebiadau sydd wedi'u trefnu

Yn ystod argyfwng, efallai y bydd angen adolygu unrhyw gyfathrebiadau sydd wedi'u trefnu. Gall hynny gynnwys:

- Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol
- Ymgyrchoedd marchnata
- Cylchlythyrau
- Hyrwyddo digwyddiadau
- Cyhoeddiadau wedi'u cynllunio

Mae’n bosib y bydd cynnwys a oedd yn ymddangos yn gwbl briodol ddoe yn teimlo'n ansensitif heddiw. Mae oedi cynnwys oedd wedi'i drefnu tra bod y sefyllfa'n cael ei hasesu yn aml yn rhagofal synhwyrol.

## Dechrau cofnod o benderfyniadau

Wrth i argyfwng ddatblygu, mae penderfyniadau'n aml yn cael eu gwneud yn gyflym. Mae gwybodaeth yn gallu newid. Mae atgofion yn dod yn annibynadwy.

Mae’n bwysig cofnodi:

- Penderfyniadau allweddol
- Pryd y cawsant eu gwneud
- Pwy â’i gwnaeth nhw
- Pa wybodaeth oedd ar gael ar y pryd

Gall hyn fod yn amhrisiadwy yn ddiweddarach os oes angen sicrwydd ar ymddiriedolwyr, rheoleiddwyr, newyddiadurwyr neu'r Comisiwn Elusennau (neu OSCR yn yr Alban) ynghylch sut y gwnaed penderfyniadau.

## Cyfathrebu yn ystod cyfnod o ansicrwydd

Mae llawer o bobl yn tybio bod cyfathrebu yn ystod argyfwng yn ymwneud â bod â’r atebion i gyd. Mewn gwirionedd, mae'n aml yn ymwneud â chyfathrebu tra bod ansicrwydd o hyd.

Efallai nad ydych chi'n gwybod yn union beth ddigwyddodd. Efallai na fyddwch chi'n gwybod beth fydd yn digwydd nesaf. Mae’n bosib na fyddwch chi'n gwybod pryd y bydd y sefyllfa'n cael ei datrys. Mae hynny'n normal.

Byddwch yn onest am yr hyn rydych chi'n ei wybod: Lle bo modd, gwahanwch wybodaeth yn dri chategori:

1. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod - gwybodaeth sydd wedi'i chadarnhau.
2. Yr hyn rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n ei wybod - gwybodaeth sy'n ymddangos yn gredadwy ond sy'n dal heb ei chadarnhau.
3. Yr hyn nad ydym yn ei wybod - cwestiynau sy'n parhau heb eu hateb.

Gall y dull hwn helpu i osgoi dryswch ac atal rhagdybiaethau rhag cael eu cyflwyno fel ffeithiau.
efyllfa a byddwn yn eich darparu â diweddariad pellach yfory.

## Mae’n bwysig cyfathrebu'n rheolaidd

Mae tawelwch yn creu lle i sibrydion ledaenu. Hyd yn oed pan nad oes llawer o wybodaeth newydd ar gael, gall fod yn ddefnyddiol tawelu meddwl rhanddeiliaid bod gwaith yn mynd rhagddo.

Er enghraifft: Rydym yn parhau i ymchwilio i'r sefyllfa a byddwn yn eich darparu â diweddariad pellach yfory.

## Canolbwyntio ar ymddiriedaeth

Efallai na fydd pobl yn cofio pob manylyn o'ch ymateb. Byddan nhw'n cofio sut roedd eich sefydliad yn gwneud iddyn nhw deimlo.

- A oedd yr undeb yn ymddangos yn bwyllog?
- A wnaeth yr undeb gymryd pryderon o ddifrif?
- A oedd yn cyfathrebu'n onest?
- A oedd yn cefnogi myfyrwyr?

Dylai amddiffyn ymddiriedaeth fod wrth wraidd pob ymateb i argyfwng.

## Ar ôl yr argyfwng: adferiad ac ailadeiladu ymddiriedaeth

Rywbryd, bydd yr argyfwng uniongyrchol yn dechrau llacio. Mae’n bosib y bydd diddordeb y cyfryngau yn lleihau. Gall gweithgaredd yn y cyfryngau cymdeithasol arafu. Efallai y bydd sylw'n symud i rywle arall.

Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y gwaith wedi'i gwblhau. Mae adferiad yn rhan bwysig o reoli argyfwng.

### Adolygu beth ddigwyddodd

Unwaith y bydd y pwysau uniongyrchol wedi lleihau, cymerwch amser i fyfyrio. Gallai'r cwestiynau gynnwys:

- Beth ddigwyddodd?
- Beth weithiodd yn dda?
- Beth allai fod wedi cael ei drin yn wahanol?
- A oedd y bobl gywir yn rhan o’r broses ar yr amser cywir?
- Oedd y cyfrifoldebau’n glir?
- Oedd sianeli cyfathrebu yn effeithiol?

Yn aml, mae argyfwng yn datgelu gwendidau nad oeddent yn amlwg o'r blaen. Er enghraifft:

- Cyfrineiriau ar goll.
- Rhestrau cyswllt bellach ddim yn gyfoes.
- Cyfrifoldebau aneglur.
- Prosesau uwchgyfeirio gwan.
- Bylchau yn y trefniadau ar gyfer delio â’r cyfryngau.
- Prosesau gwneud penderfyniadau nad oeddent yn drylwyr

Gall mynd i'r afael â'r materion hyn tra bod nhw’n ffres ym meddyliau pobl wella parodrwydd yn y dyfodol yn sylweddol. Pwrpas yr adolygiad hwn yw dysgu, nid gosod bai ar unrhyw un. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n darganfod pethau y byddent yn eu gwneud yn wahanol y tro nesaf. Mae hynny'n gwbl normal.

Dylai'r amcan fod yn syml: Pe bai hyn yn digwydd eto yfory, a fyddem ni wedi paratoi'n well?

## Ailadeiladu ymddiriedaeth

Yn aml, mae gan bobl lai o ddiddordeb yn yr argyfwng mae'r sefydliad wedi'i brofi nag yn yr hyn a ddigwyddodd wedyn.

Gall myfyrwyr, ymddiriedolwyr a rhanddeiliaid ofyn:

- Beth gafodd ei ddysgu?
- Beth newidiodd?
- A oes camau wedi'u cymryd?

Lle bo'n briodol, ystyriwch rannu:

- Deilliannau.
- Gwelliannau.
- Gwersi a ddysgwyd
- Newidiadau a wnaed.

Gall dangos bod dysgu wedi digwydd helpu i ailadeiladu hyder ac ymddiriedaeth.

Cofiwch: nid oes rhaid i argyfwng ddiffinio undeb myfyrwyr. Yn aml, nid yr argyfwng ei hun yw'r hyn y mae pobl yn ei gofio fwyaf, ond sut ymatebodd y sefydliad a'r hyn a ddigwyddodd wedyn.

## Cyfryngau cymdeithasol

Gall cyfryngau cymdeithasol fod yn un o'r teclynnau mwyaf defnyddiol sydd ar gael yn ystod argyfwng. Gall hefyd fod yn un o'r rhai mwyaf heriol.

Mae llwyfannau fel Instagram, TikTok, Facebook, LinkedIn ac X yn caniatáu i undebau myfyrwyr gyfathrebu'n gyflym, rhannu diweddariadau, cywiro gwybodaeth gamarweiniol a chyfeirio pobl at gymorth.

Gallant hefyd gynyddu sibrydion, annog dyfalu a chynyddu pwysau ar y rhai sy'n ymateb.

## Manteision cyfryngau cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i undebau myfyrwyr wneud y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth yn gyflym.
- Cyrraedd nifer fawr o fyfyrwyr.
- Cywiro gwybodaeth anghywir.
- Cyfeirio pobl at gymorth a chyngor.
- Monitro pryderon a chwestiynau myfyrwyr.
- Rhoi tawelwch meddwl yn ystod cyfnod o ansicrwydd.

I lawer o fyfyrwyr, cyfryngau cymdeithasol yw'r lle cyntaf y maent yn chwilio am wybodaeth. Anaml y mae ei anwybyddu yn opsiwn realistig.

## Heriau cyfryngau cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn gwobrwyo cyflymder. Mae cyfathrebu yn ystod argyfwng yn gofyn am gywirdeb. Nid yw'r ddau beth hyn bob amser yn cyd-fynd yn gyfforddus.

Gall cyfryngau cymdeithasol wneud y canlynol:

- Cynyddu sibrydion.
- Gwobrwyo dicter a barn gref.
- Dileu cyd-destun a naws.
- Creu pwysau i ymateb ar unwaith.
- Annog dadleuon yn hytrach na thrafodaeth.

Dylai undebau myfyrwyr wrthsefyll y demtasiwn i ganiatáu i gyfryngau cymdeithasol bennu eu hymateb.

## Peidiwch â dadlau ar-lein

Un o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin y mae sefydliadau'n eu gwneud yw cael eu llusgo i mewn i ddadleuon ar gyfryngau cymdeithasol. Hyd yn oed pan fydd beirniadaeth yn teimlo'n annheg neu pan fydd rhywun yn fwriadol yn ceisio ysgogi ymateb, anaml y bydd dadleuon yn newid meddyliau. Ond maen nhw'n gwneud sgrinluniau gwych. Mae ymateb tawel, proffesiynol bron bob amser yn fwy effeithiol na dadl hir ar-lein.

## Mae'n bwysig monitro, heb orbwysleisio

Gall cyfryngau cymdeithasol ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am sut mae myfyrwyr yn teimlo. Fodd bynnag, ni ddylai ddod yn unig ffynhonnell wybodaeth i chi.

Cofiwch:

- Nid yw defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol bob amser yn cynrychioli corff ehangach y myfyrwyr.
- Nid y lleisiau mwyaf croch yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf bob amser.
- Nid yw lefel uchel o ymgysylltiad bob amser yn golygu lefel uchel o bwysigrwydd.

Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol fel un ffynhonnell wybodaeth, ochr-yn-ochr â sgyrsiau gyda myfyrwyr, swyddogion, staff a chynrychiolwyr.

## Camgymeriadau cyffredin y mae sefydliadau'n eu gwneud

- Oedi'n rhy hir: Mae rhai sefydliadau'n gohirio cyfathrebu oherwydd eu bod yn aros am wybodaeth gyflawn. Yn anffodus, anaml y bydd bylchau mewn gwybodaeth yn aros yn wag am amser hir.

- Gall myfyrwyr, newyddiadurwyr a defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol lenwi'r bylchau hynny gyda'u rhagdybiaethau eu hunain.

- Cymryd yn ganiataol y bydd y ffeithiau'n siarad drostynt eu hunain: Mae llawer o arweinwyr yn credu, os ydyn nhw wedi gwneud y penderfyniad cywir, y bydd pobl yn ei ddeall a'i gefnogi'n awtomatig. Nid yw hyn bob amser yn wir. Gall hyd yn oed penderfyniadau da ddenu beirniadaeth. Mae cyfathrebu yn dal i fod yn bwysig.

- Canolbwyntio ar feio rhywun yn hytrach nag ymateb: Un o'r cwestiynau cyntaf y mae pobl yn aml yn eu gofyn yw: Pwy sydd ar fai am hyn? Er y gallai hynny ddod yn bwysig yn y pen draw, nid dyma'r cwestiwn mwyaf defnyddiol bob amser yng nghyfnodau cynnar argyfwng. Cwestiwn gwell yw: Beth sydd ei angen gennym ni ar hyn o bryd?

- Dweud gormod:Pan fyddant o dan bwysau, mae sefydliadau weithiau'n dyfalu, yn gor-esbonio neu'n rhannu gwybodaeth sy'n profi'n anghywir yn ddiweddarach. Os nad ydych chi'n gwybod rhywbeth, mae'n berffaith dderbyniol dweud hynny. Mae gonestrwydd fel arfer yn fwy effeithiol na dyfalu.

- Dweud rhy ychydig: Y camgymeriad cyferbyniol yw cadw’n dawel am ormod o amser. Gellir dehongli tawelwch fel diffyg pryder, arweinyddiaeth neu dryloywder.

- Ceisio ymdopi ar eich pen eich hun: Mae llawer o argyfyngau’n mynd yn anoddach oherwydd bod pobl yn oedi gormod cyn gofyn am gymorth gan gydweithwyr, uwch arweinwyr, ymddiriedolwyr neu gynghorwyr arbenigol. Mae ceisio cefnogaeth fel arfer yn arwydd o ddoethineb yn hytrach na gwendid.

- Y gwahaniaeth rhwng sylw â phwysigrwydd: Nid yw pob mater sy'n cael sylw sylweddol o reidrwydd y mater pwysicaf sy'n effeithio ar fyfyrwyr. Y cwestiwn allweddol o hyd yw: Beth sydd bwysicaf?

- Anghofio'r cyd-destun ehangach: Weithiau gall mater sy'n teimlo'n lleol ddod yn rhan o ddadl llawer ehangach, a hynny’n gyflym. Gall meddwl ymlaen llaw am sut y gallai eraill ymateb helpu i osgoi datblygiadau annisgwyl.

## Chwedlau ynghylch cyfathrebu yn ystod argyfwng

Chwedl: Dylen ni aros nes ein bod ni'n gwybod popeth cyn cyfathrebu.
Realiti: Erbyn hynny, efallai y bydd eraill wedi llenwi'r bwlch gwybodaeth i chi.

Chwedl: Os ydyn ni wedi gwneud y penderfyniad cywir, bydd pobl yn cytuno â hynny.
Realiti: Gall hyd yn oed penderfyniadau da ddenu beirniadaeth.

Chwedl: Os ydyn ni'n anwybyddu'r sefyllfa, bydd yn diflannu.
Realiti: Gall hynny fod yn wir weithiau. Yn aml nid felly mohoni.

Chwedl: Nid bywyd go iawn yw cyfryngau cymdeithasol.
Realiti: Gall cyfryngau cymdeithasol lunio sut mae myfyrwyr a rhanddeiliaid yn deall sefyllfa.

Chwedl: Mae cyfathrebu yn ystod argyfwng yn ymwneud â sbin.
Realiti: Mae cyfathrebu yn ystod argyfwng yn ymwneud ag ymddiriedaeth.

Chwedl: Mae cael ein beirniadu yn golygu ein bod wedi methu.
Realiti: Weithiau mae beirniadaeth yn adlewyrchu anghytundeb yn hytrach na gwneud penderfyniadau gwael.

Yn enwedig mewn undebau myfyrwyr, gall fod sefyllfaoedd lle mae pobl resymol yn dod i gasgliadau gwahanol. Nid bodloni pawb yw'r nod. Y nod yw ymddwyn yn gyfrifol, cyfathrebu'n glir a chynnal ymddiriedaeth.

## Pan nad oes ateb perffaith

Mae llawer o enghreifftiau o gyfathrebu yn ystod argyfwng yn canolbwyntio ar sefyllfaoedd lle mae rhywun, yn amlwg, wedi gwneud camgymeriad. Yn ymarferol, mae undebau myfyrwyr yn aml yn wynebu her wahanol. Maen nhw'n cael eu hunain yn llywio sefyllfaoedd lle mae pobl resymol yn anghytuno, lle mae buddiannau cystadleuol yn bodoli, ac nad oes ateb amlwg sy'n bodloni pawb.

Yn y sefyllfaoedd hyn, mae cyfathrebu'n parhau i fod yn bwysig, ond yr her sylfaenol yn aml yw un o arweinyddiaeth, barn a gwerthoedd. Mae undebau myfyrwyr mewn safle unigryw.
Maen nhw'n elusennau. Maen nhw'n gyrff cynrychioli. Maen nhw'n sefydliadau democrataidd. Maen nhw'n aml yn gweithio'n agos gyda'u prifysgolion tra hefyd yn eu herio.

Gall hyn greu sefyllfaoedd lle nad oes y fath beth ag ateb perffaith.

Gall penderfyniadau da ddenu beirniadaeth o hyd: Nid yw cael eich beirniadu o reidrwydd yn golygu bod y penderfyniad yn anghywir.

- Mae pobl resymol yn anghytuno.
- Mae buddiannau cystadleuol yn bodoli.
- Mae emosiynau cryf yn rhan o'r broses.
- Nid oes y fath beth â datrysiad sy'n bodloni pawb.

Nid osgoi beirniadaeth yn gyfan gwbl yw'r nod. Y nod yw sicrhau bod penderfyniadau'n ystyrlon, yn gyson, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â gwerthoedd a chyfrifoldebau'r undeb.

Weithiau bydd pobl yn dal i fod yn anhapus. Nid yw hynny'n golygu'n awtomatig eich bod wedi methu.

Mewn sefyllfaoedd cymhleth, mae arweinyddiaeth yn aml yn ymwneud llai â dod o hyd i atebion perffaith a mwy â llywio cyfaddawdau anodd yn feddylgar ac yn gyfrifol.

## Ymddiriedolwyr, llywodraethiant a'r Comisiwn Elusennau

Mae pob undeb myfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru yn elusennau cofrestredig. Mae gan ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyfreithiol am sicrhau bod yr elusen yn cael ei llywodraethu, ei rheoli a'i diogelu'n briodol.

Yn ystod argyfwng, nid yw ymddiriedolwyr fel arfer yn gyfrifol am reoli'r ymateb gweithredol. Swyddogion a staff fydd â'r cyfrifoldeb hwnnw fel arfer. Fodd bynnag, mae gan ymddiriedolwyr gyfrifoldeb i ddarparu goruchwyliaeth, bodloni eu hunain bod risgiau sylweddol yn cael eu rheoli'n briodol, a sicrhau bod yr elusen yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.

Nid yw hyn yn golygu bod angen hysbysu ymddiriedolwyr am bob mater anodd, cwyn neu anghytundeb. Gellir rheoli'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd anodd trwy brosesau arferol, a dylid gwneud hynny. Fodd bynnag, dylid hysbysu ymddiriedolwyr pan allai problem fod â goblygiadau sylweddol i'r elusen, neu lle gallai fod angen goruchwyliaeth y Bwrdd wrth wneud penderfyniadau strategol neu ystyried rhwymedigaethau adrodd.

### Rôl luosog y Llywydd

Gall undebau myfyrwyr wynebu her benodol yn ystod argyfwng oherwydd bod Llywyddion yn aml yn dal sawl rôl ar yr un pryd.

Yn dibynnu ar drefniadau llywodraethiant yr undeb, gall Llywydd fod yn:

- Cynrychiolydd etholedig y myfyrwyr.
- Aelod o'r tîm arweinyddiaeth weithredol.
- Cadeirydd neu is-gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Myfyriwr lywodraethwr y brifysgol

Mae gan bob rôl gyfrifoldebau gwahanol a gall ddarparu mynediad at wybodaeth wahanol.

Gall hyn greu ansicrwydd ynghylch pwy ddylai wybod beth a phryd. Mae'n bwysig cofio nad yw'r ffaith bod Llywydd yn gwybod am rywbeth yr un fath â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gwybod amdano.

Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol ar y cyd am lywodraethiant yr elusen ac mae angen digon o wybodaeth arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau. Os bydd angen goruchwyliaeth gan y Bwrdd neu ystyriaeth o rwymedigaethau adrodd ar gyfer unrhyw sefyllfa, dylid hysbysu'r ymddiriedolwyr yn briodol.

## Adrodd am ddigwyddiadau difrifol

Mewn rhai amgylchiadau, disgwylir i elusennau roi gwybod am ddigwyddiadau difrifol i'r Comisiwn Elusennau.

Digwyddiad difrifol yw digwyddiad niweidiol, boed yn wirioneddol neu'n honedig, sy'n arwain at neu'n peryglu niwed sylweddol i aelodau, staff, gwirfoddolwyr neu eraill sy'n dod i gysylltiad â'r elusen, neu'n arwain at neu'n peryglu colled sylweddol o ran arian, asedau, gwasanaethau neu enw da'r elusen.

Gallai enghreifftiau gynnwys digwyddiadau diogelu difrifol, twyll sylweddol, gweithgarwch troseddol difrifol, gollwng data sylweddol, neu ddigwyddiadau sy'n peri risg sylweddol i enw da'r elusen.

Ni fydd angen adrodd i'r Comisiwn Elusennau am bob argyfwng. Fodd bynnag, lle mae unrhyw amheuaeth, dylai ymddiriedolwyr ystyried a allai rhwymedigaethau adrodd fod yn berthnasol.

Mae'n ofynnol hefyd i brifysgolion rheoleiddiedig roi gwybod i Medr am rai digwyddiadau difrifol. Mae manylion wedi'u nodi yn Fframwaith Rheoleiddio Medr (tudalennau 29 i 37).

Er bod y ddyletswydd adrodd hon yn nwylo'r brifysgol yn hytrach nag undeb y myfyrwyr, dylai undebau fod yn ymwybodol y gallai digwyddiadau sylweddol sy'n effeithio ar fyfyrwyr neu'r sefydliad sbarduno rhwymedigaethau adrodd. Gall deall y gofynion hyn helpu undebau myfyrwyr i ymgysylltu'n adeiladol â'r brifysgol yn ystod argyfwng a gofyn cwestiynau gwybodus am sut mae risgiau'n cael eu rheoli.

## Cadw cofnodion da

Yn ystod argyfwng, mae pobl yn aml yn brysur, mae gwybodaeth yn newid yn gyflym ac mae'r cof yn dod yn annibynadwy. Gall cadw cofnodion da fod yn amhrisiadwy.

Ystyriwch gadw cofnod o:

- Penderfyniadau allweddol.
- Cofnodion penderfyniadau.
- Llinellau amser.
- Datganiadau.
- Ymholiadau gan y cyfryngau.
- Briffio ar gyfer ymddiriedolwyr.
- Gohebiaeth allweddol.

Gall y cofnodion hyn fod yn hynod ddefnyddiol os bydd ymddiriedolwyr, rheoleiddwyr, archwilwyr neu'r Comisiwn Elusennau angen sicrwydd yn ddiweddarach ynghylch sut y gwnaed penderfyniadau a sut y cymerwyd camau gweithredu. Efallai y bydd adnoddau fel y templed Matrics Penderfyniadau Ymddiriedolwyr Elusen UCM yn ddefnyddiol i fyrddau.

## Cynlluniau gwarchod dysgwyr

Mae llawer o argyfyngau sy'n effeithio ar undebau myfyrwyr yn tarddu o'r brifysgol ei hun.

Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Cau cyrsiau
- Ailstrwythuro adrannau
- Cau campysau
- Gostyngiadau sylweddol yn y ddarpariaeth
- Trafferthion ariannol
- Y sefydliad yn uno neu'n cau

Mewn sefyllfaoedd fel y rhain, mae myfyrwyr yn aml yn poeni am yr effaith ymarferol ar eu hastudiaethau, eu cymwysterau a'u cyfleoedd yn y dyfodol. Er y bydd undebau myfyrwyr yn canolbwyntio'n briodol ar gynrychiolaeth, ymgyrchu a chyfathrebu, mae hefyd yn bwysig deall pa amddiffyniadau sydd eisoes ar waith.

## Beth yw cynlluniau diogelu dysgwyr?

Mae Cynlluniau Diogelu Dysgwyr yn nodi sut y bydd sefydliadau'n ceisio cynorthwyo myfyrwyr i barhau a chwblhau eu hastudiaethau os ydynt yn wynebu aflonyddwch sylweddol o ganlyniad i ddigwyddiad allanol neu benderfyniadau sefydliadol.

Diben y cynlluniau hyn yw helpu sefydliadau i baratoi ar gyfer aflonyddwch o'r fath ac ymateb iddo, gan ddarparu fframwaith ar gyfer cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr trwy gydol y cyfnod o aflonyddwch.

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall Cynllun Diogelu Dysgwyr gynnwys:

- Sut y bydd addysgu'n parhau
- Sut y bydd y sefydliad yn cyfathrebu â myfyrwyr
- Cymorth i ddysgwyr yr effeithir arnynt
- Trefniadau amgen ar gyfer astudio
- Dewisiadau ar gyfer trosglwyddo lle bo'n briodol
- Mesurau i leihau aflonyddwch a diogelu deilliannau myfyrwyr

## Pam y dylai undebau myfyrwyr roi sylw i hyn?

Dylid datblygu Cynlluniau Diogelu Dysgwyr mewn partneriaeth â myfyrwyr ac undebau myfyrwyr. Dylai prifysgolion gynnwys undebau myfyrwyr yn weithredol wrth eu datblygu a'u hadolygu, gan dynnu ar safbwyntiau myfyrwyr i sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu'r materion sydd bwysicaf i ddysgwyr.

Mae hyn yn ymwneud â mwy nag ymgynghori â myfyrwyr ynghylch y ddogfen orffenedig. Dylai undebau myfyrwyr gael y cyfle i helpu â ffurfio'r cynllun a dylanwadu ar yr amddiffyniadau y gall myfyrwyr eu disgwyl pan fydd aflonyddwch sylweddol yn digwydd.

## Yn ystod argyfwng

Os yw argyfwng yn ymwneud ag addysgu, dysgu, darpariaeth cyrsiau neu brofiad ehangach myfyrwyr, un o'r cwestiynau cyntaf y dylai undeb myfyrwyr ei ofyn yw: Beth ddylai'r Cynllun Diogelu Dysgwyr ei ddweud am hyn?

Dylai'r cynllun gynnwys ymrwymiadau, disgwyliadau a threfniadau ar gyfer ymateb a all helpu'r undeb i wneud y canlynol:

- Deall sut mae'r sefydliad yn bwriadu ymateb.
- Sicrhau bod y sefydliad yn cadw at ei ymrwymiadau.
- Nodi bylchau neu bryderon posibl.
- Cyfathrebu'n fwy effeithiol â myfyrwyr.
- Canolbwyntio ymdrechion cynrychiolaeth lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

Gall Cynllun Diogelu Dysgwyr fod yn declyn cynrychiolaeth gwerthfawr. Gall helpu undebau myfyrwyr i ddeall yr hyn y mae'r sefydliad wedi ymrwymo iddo, gofyn cwestiynau gwybodus, ac eirioli'n effeithiol dros fyfyrwyr yn ystod cyfnodau penodol o aflonyddwch ac ansicrwydd.

## Gofalu amdanoch chi'ch hun ac eraill

Gall argyfyngau beri cryn straen. Gallant fod yn heriol yn emosiynol, yn weladwy iawn ac yn amhosib eu rhagweld.

Yn ystod argyfwng, gall unigolion ganfod eu hunain yn wynebu:

- Derbyn beirniadaeth ar-lein.
- Delio â newyddiadurwyr.
- Rheoli sgyrsiau anodd.
- Gweithio oriau hir.
- Poeni am wneud pethau'n anghywir.
- Teimlo'n bersonol gyfrifol am y canlyniad.

Mae hyn yn gwbl normal.

## Nid oes rhaid i chi ymdopi â hyn ar eich pen eich hun

Un o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin y mae arweinwyr yn eu gwneud yn ystod argyfwng yw tybio bod angen iddyn nhw ddatrys popeth eu hunain. Nid felly mohoni.

Mae ymatebion effeithiol i argyfwng bron bob amser yn ymdrechion gan dîm. Mae undebau myfyrwyr yn bodoli oherwydd bod arweinyddiaeth gyfunol fel arfer yn gryfach nag arweinyddiaeth unigol. Dylech geisio cefnogaeth gan:

- Cyd-swyddogion.
- Cydweithwyr o blith staff.
- Ymddiriedolwyr
- Partneriaid yn y brifysgol
- Cynghorwyr proffesiynol lle bo'n briodol

Mae gofyn am help yn arwydd o ddoethineb, nid gwendid.

## Dylech osgoi ymateb pan fyddwch chi'n teimlo’n ddig neu wedi blino'n lân

Mae llawer o gamgymeriadau cyfathrebu yn digwydd pan fydd pobl:

- Wedi blino.
- Yn rhwystredig.
- Dan bwysau.
- Yn teimlo dan ymosodiad personol.

Yn y sefyllfaoedd hyn, mae pobl yn fwy tebygol o ymateb yn emosiynol, ymateb yn amddiffynnol neu wneud penderfyniadau y maent yn eu difaru’n ddiweddarach.

Os yn bosibl:

- Pwyllwch cyn ymateb.
- Gofynnwch i gydweithiwr adolygu cyfathrebiadau pwysig.
- Dylech osgoi gwneud penderfyniadau pwysig yn hwyr yn y nos.
- Cymerwch seibiannau lle bo'n ymarferol.
- Camwch i ffwrdd o gyfryngau cymdeithasol o bryd i'w gilydd.

Anaml y gwneir penderfyniadau perffaith gan bobl flinedig.

Cofiwch - Mae terfyn ar y rhan fwyaf o argyfyngau. Mae sylw'r cyfryngau'n symud ymlaen. Mae sgyrsiau ar gyfryngau cymdeithasol yn arafu. Mae materion newydd yn dod i'r amlwg. Yng nghanol argyfwng gall deimlo fel pe bai pob penderfyniad yn hollbwysig a bydd pob camgymeriad yn cael ei gofio am byth. Anaml y mae hyn yn wir.

Canolbwyntiwch ar wneud y peth synhwyrol nesaf, gan geisio cefnogaeth pan fydd ei hangen arnoch, ac ymateb mewn ffordd sy'n adlewyrchu gwerthoedd eich undeb myfyrwyr.

## Datganiadau dros-dro

Isod mae rhai enghreifftiau o ddatganiadau daliannol y gallech fod eisiau eu defnyddio yn ystod camau cynnar argyfwng. Bwriedir iddynt fod yn fannau cychwyn yn unig, a dylid eu haddasu i adlewyrchu'r amgylchiadau penodol.

- Ymholiadau gan y cyfryngau: Rydym yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn casglu gwybodaeth ar hyn o bryd. Byddwn yn darparu diweddariad pellach cyn gynted ag y gallwn.
- Pryderon o ran diogelu: Rydym yn cymryd pryderon diogelu o ddifrif ac yn dilyn gweithdrefnau priodol. Rydym wrthi’n sefydlu’r ffeithiau ar hyn o bryd, a byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth pan fo’n briodol.
- Cyhoeddiad gan y brifysgol: Rydym yn ymwybodol o'r cyhoeddiad ac yn deall y gallai fod gan fyfyrwyr gwestiynau a phryderon. Rydym yn ceisio rhagor o wybodaeth a byddwn yn parhau i gynrychioli buddiannau myfyrwyr wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

## Teclyn hunan-asesu: pa mor barod ydych chi?

Yr amser gorau i baratoi ar gyfer argyfwng yw cyn iddo ddigwydd; bydd y teclyn hwn yn eich helpu i ddeall eich cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad.

Dychmygwch ei bod hi'n 8pm ar nos Wener...

Mae mater difrifol yn denu sylw’n gyflym ar-lein.

- Mae myfyrwyr yn gofyn cwestiynau.
- Mae newyddiadurwr yn gofyn am sylwadau.
- Mae ymddiriedolwyr yn dechrau clywed sibrydion.

A allai eich undeb myfyrwyr ymateb yn effeithiol?

Defnyddiwch y cwestiynau isod i asesu eich parodrwydd:

### Arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau

A allwch chi ateb y cwestiynau canlynol ar unwaith?

☐ Pwy fyddai’n arwain yr ymateb?
☐ Pwy fyddai’n gwneud penderfyniadau allweddol?
☐ Beth sy'n digwydd os nad ydyn nhw ar gael?
☐ A yw swyddogion, staff ac ymddiriedolwyr yn deall eu rolau priodol?
☐ Oes gennych chi fanylion cyswllt ar gyfer yr ymddiriedolwr?

### Cyfathrebu a gwybodaeth

☐ Pwy sydd â mynediad i'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol? Os mai dim ond un person sydd â mynediad, dychmygwch eu bod wedi mynd ar wyliau cerdded i rywle nad oes yna signal ffôn.
☐ Ble mae cyfrineiriau'n cael eu storio?
☐ Pwy all ddiweddaru'r wefan?
☐ Pwy all gyhoeddi datganiad?
☐ Pwy sy'n siarad â newyddiadurwyr?
☐ A oes gan sawl person fynediad at systemau hanfodol?

## Myfyrwyr a rhanddeiliaid

☐ Sut fyddai myfyrwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf?
☐ Sut fyddai staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf?
☐ Sut fyddai ymddiriedolwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf?
☐ Ydych chi wedi nodi pwy yw'r cysylltiadau allweddol yn y brifysgol?
☐ Ydych chi'n gwybod pwy arall y gallai fod angen rhoi gwybod iddyn nhw?

## Parodrwydd

☐ Ydych chi wedi trafod senarios argyfwng tebygol?
☐ Ydych chi wedi adolygu eich trefniadau yn ystod y 12 mis diwethaf?
☐ A yw swyddogion newydd yn derbyn unrhyw gyfarwyddiadau ynghylch cyfathrebu yn ystod argyfwng?
☐ Oes gennych chi fanylion cyswllt cyfredol ar gyfer pobl allweddol?
☐ Ydych chi wedi ystyried sut y byddech chi'n cyfathrebu y tu allan i oriau swyddfa arferol?
☐ A yw cymdeithasau, clybiau ac arweinwyr myfyrwyr yn gwybod pryd i uwchgyfeirio materion?

Os oedd sawl cwestiwn yn anodd eu hateb... peidiwch â mynd i banig. Mae llawer o sefydliadau yn darganfod bylchau pan fyddant yn ymgymryd â'r ymarfer hwn am y tro cyntaf.

Y pwrpas yw nodi camau ymarferol a fydd yn gwneud ymateb i argyfwng yn y dyfodol yn haws ac yn fwy effeithiol.

## Adnoddau defnyddiol

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i undebau myfyrwyr gynnal rhestr gyfoes o gysylltiadau allweddol mewn argyfwng, yn ogystal â chanllawiau a dogfennau.

Gall adnoddau defnyddiol gynnwys:

- Matrics gwneud penderfyniadau ymddiriedolwyr Elusen UCM.
- Canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar adrodd am ddigwyddiadau difrifol.
- Gwasanaeth adrodd am ddigwyddiadau difrifol y Comisiwn Elusennau.
- Canllawiau diogelu'r Comisiwn Elusennau ar gyfer elusennau ac ymddiriedolwyr.
- Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar adrodd am ollyngiadau data personol.
- Amod Diogelu Dysgwyr Medr a Chanllawiau Statudol.
- Canllawiau fframwaith rheoleiddio Medr ar adrodd am ddigwyddiadau difrifol.

## Syniadau i gloi

Mae argyfyngau yn rhan anochel o fywyd sefydliadol. Bydd y rhan fwyaf o undebau myfyrwyr yn wynebu sefyllfaoedd anodd ar ryw adeg.

Nid osgoi pob argyfwng nac ymdrin â phob sefyllfa'n berffaith yw'r nod. Y nod yw ymateb mewn ffordd sy'n amddiffyn ymddiriedaeth, yn cefnogi myfyrwyr, ac yn osgoi gwaethygu sefyllfa anodd.

Os oes un neges i'w chymryd o'r pecyn cymorth hwn, gadewch iddi fod hon: Nid perffeithrwydd yw'r nod.

**Cysylltwch**
Merseyway Innovation Centre
21-23 Merseyway
Stockport
SK1 1PN

uniondevelopment@nus.org.uk

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

nus charity
national union of **students**